

Galwad

Gweddïau o Ddiolchgarwch

Gweddïau o Ddiolchgarwch

Dduw'r holl bobl,
Goleuni y tu hwnt i'r bydysawd,
sy'n disgleirio i'r byd hwn gyda chariad a derbyniad,
diolchwn iti am yr holl bobl
sydd wedi ymateb i'th alwad.

Diolchwn am bobl sydd wedi eu galw i'r weinidogaeth
ordeiniedig ac sy'n cysegru eu bywydau i wasanaethu'r
Eglwys, gan roi eraill yn gyntaf.
Diolchwn am bobl sydd wedi eu galw i wahanol rolau yn yr
Eglwys: arloeswyr, pregethwyr, efenglyddion,
gweinyddwyr, glanhawyr, arweinyddion addoli, cerddorion,
ymddiriedolwyr, stiwardiaid, ysgrifenyddion, caplaniaid,
gweithwyr lleyg, bugeiliaid lleyg, gweithwyr plant ac
ieuentid...

Diolchwn am bobl sydd wedi eu galw i'th wasanaethu
gyda'u doniau mewn llawer o wahanol fannau:
lletygarwch, addysgu, annog, gweinyddu, canu, gofalu,
rhoi, helpu, gwranddo, arwain, darllen, addfwynder, coginio,
pobi, gweini, creadigrwydd...

Diolchwn yn arbennig iti am y bobl a fu, ar ôl ymateb i
alwad Duw, yn ein hysbrydoli a'n helpu ar ein taith ffydd...

*Cyfnod o dawelwch lle gellir annog pobl i rannu enwau neu
eu hysgrifennu.*

Dduw cariadus a galluogol,
Diolchwn i ti am rodd dy Eglwys,
ble mae pobl yn cael y cyfleoedd a'r gefnogaeth
i hyfforddi a datblygu mewn gweinidogaeth a
chenhadaeth,
ble maent yn ymateb i'th alwad
ac yn cael eu harfogi gan dy Eglwys.

Diolchwn yn arbennig iti am bobl sy'n annog
ac yn galluogi eraill yn eu disgyblaeth a'u galwad,
yn cydnabod a chadarnhau'r doniau a roddaist
ac yngalluogi eraill i ymateb a'th ddilyn.

Diolchwn am holl bobl Dduw. Amen